COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWYD YN O BELL TRWY SKYPE DYDD MERCHER, 16 RHAGFYR 2020, AM 15:00

Presennol

Y Cynghorydd KJ Watts – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| SE Baldwin | TH Beedle | JPD Blundell | NA Burnett |
| MC Clarke | N Clarke | RJ Collins | HJ David |
| P Davies | PA Davies | SK Dendy | DK Edwards |
| J Gebbie | T Giffard | RM Granville | CA Green |
| DG Howells | A Hussain | RM James | B Jones |
| MJ Kearn | DRW Lewis | JE Lewis | JR McCarthy |
| D Patel | RL Penhale-Thomas | AA Pucella | JC Radcliffe |
| B Sedgebeer | RMI Shaw | CE Smith | SG Smith |
| RME Stirman | G Thomas | T Thomas | SR Vidal |
| MC Voisey | LM Walters | CA Webster | DBF White |
| PJ White | A Williams | AJ Williams | HM Williams |
| JE Williams | RE Young | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

JC Spanswick, JH Tildesley MBE a/ac E Venables

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd |
| Gill Lewis | Pennaeth Cyllid a Swyddog 151 Dros Dro |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau |
| Jonathan Parsons | Rheolwr Grŵp Datblygu |
| Michael Pitman | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |
| Andrew Rees | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| Mark Shephard | Prif Weithredwr |
| Gaynor Thomas | Rheolwr Rhaglen Ysgolion |
| Kelly Watson | Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio |

480. DATGANIADAU O FUDDIANT

Datganodd y Cynghorydd SE Baldwin fuddiant sy'n rhagfarnu yn eitem 12 ar yr Agenda - Moderneiddio Ysgolion - Rhaglen Gyfalaf Band B - Costau Tir ac ni chymerodd unrhyw ran yn yr ystyriaeth o'r eitem honno.

Datganodd y Cynghorydd DBF White fuddiant personol yn eitem 12 ar yr Agenda - Moderneiddio Ysgolion - Rhaglen Gyfalaf Band B - Costau Tir gan ei fod yn llywodraethwr i un o'r ysgolion a grybwyllir yn yr adroddiad.

481. CADARNHAU COFNODION

PENDERFYNIAD: Bod Cofnodion cyfarfod y Cyngor ar 18 Tachwedd 2020 i'w cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir.

482. DERBYN CYHOEDDIADAU GAN:

Y Maer

Gyda thristwch mawr, cyhoeddodd y Maer fod cydweithiwr a ffrind, Kevin Stephens, wedi huno'n ddiweddar oherwydd Covid 19. Bydd llawer o Aelodau wedi adnabod Kevin yn bersonol, ag yntau wedi bod yn aelod uchel ei barch o'r tîm gwasanaethau democrataidd. Yn wir, byddai wedi bod yma yn cynorthwyo yn y cyfarfod hwn heddiw, yn sicrhau bod popeth yn rhedeg yn esmwyth. Bu Kevin yn aelod ymroddedig a gweithgar o CBSP am fwy na 25 mlynedd, ac yn y cyfnod hwnnw daeth yn ffrind gydol oes i nifer ar draws yr awdurdod, rydym yn estyn cydymdeimlad a chefnogaeth y Cyngor i'r staff hynny sy'n ceisio dygymod â cholled ffrind a chydweithiwr. Roedd Kevin hefyd yn agos iawn i'w deulu, ac mae'r Aelodau'n anfon eu cydymdeimlad at ei wraig Annie, ei feibion James a Luke, a'i fam Elsie yn ystod y cyfnod anodd hwn. Dywedodd y Maer wrth yr aelodau ei fod ef a'i Gonsort wedi cwrdd â'r teulu y tu allan i'r eglwys cyn i'r gwasanaeth angladd gael ei gynnal. Fel arwydd o barch ac i gofio Kevin, cafwyd munud o dawelwch gan bawb a oedd yn bresennol.

Cyhoeddodd y Maer iddo gael braint yr wythnos ddiwethaf o ddiolch i holl staff a gwirfoddolwyr y gwasanaethau cymdeithasol a wnaeth apêl Siôn Corn yn bosibl eleni. Bu'n dipyn o her i bawb drefnu'r casgliad wrth gydymffurfio â'r rheoliadau pandemig, yn enwedig gan fod nifer y teuluoedd mewn angen a enwebwyd wedi cynyddu i dros 300 o blant a phobl ifanc. Dywedodd fod llwyddiant arbennig yr apêl yn glod i bartneriaid y Cyngor, Eglwys Tabernacl Brackla, Tesco Pen-y-bont ar Ogwr, ysbyty Hafod y Wennol a disgyblion blwyddyn 9 Ysgol Brynteg, am eu bod wedi cyrraedd cynifer o blant a phobl ifanc ag sydd mewn angen.

<u>Dirprwy Arweinydd</u>
Rhoddodd y Dirprwy Arweinydd fanylion trefniadau ailgylchu a chasglu gwastraff y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd i'r Cyngor, a chyhoeddodd newid pwysig iawn y gallai'r Aelodau helpu i wella ymwybyddiaeth pobl ohono. Gofynnir i aelwydydd lle mae rhywun yn dangos symptomau coronafeirws wneud yn siŵr bod unrhyw wastraff meinwe, fel papur toiled/cegin, neu glytiau gwlyb, yn cael eu bagio ddwywaith a'i gosod i'r neilltu am 72 awr. Ar ôl hyn, gellir gosod y bag y tu allan ym mag sbwriel y cartref. Er mwyn helpu i gadw casglwyr yn ddiogel, ni ddylid cynnwys gwastraff o'r fath gyda'r papur i'w ailgylchu ar unrhyw gyfrif.

Cyhoeddodd y Dirprwy Arweinydd y bydd y casgliadau eleni yn cael eu cynnal fel arfer ar Noswyl Nadolig a Nos Galan, ond nid ar Ddydd Nadolig, Gŵyl San Steffan na Dydd Calan. Bydd gwastraff sydd i fod i gael ei gasglu ar Ddydd Nadolig yn cael ei gasglu ddydd Sul 27 Rhagfyr. Bydd casgliadau Dydd Calan yn cael eu casglu ddydd Sadwrn 2 Ionawr. Gan fod gŵyl banc Gŵyl San Steffan wedi'i symud i ddydd Llun 28 Rhagfyr, bydd y casgliadau'n cael eu cynnal fel arfer ar y diwrnod hwn. Bydd preswylwyr hefyd yn gallu cynnwys un bag sbwriel ychwanegol yn y casgliad sbwriel cyntaf a drefnir ar ôl y Nadolig. Bydd cerbyd ychwanegol yn casglu cardbord, felly gellir casglu hwn ar wahân i wastraff ailgylchu arall y cartref. Atgoffir preswylwyr nad oes cyfyngiadau ar faint o wastraff i'w ailgylchu y gellir ei roi allan i'w gasglu, ac y gellir ailgylchu'r rhan fwyaf o ddeunyddiau. Y prif eitemau na ellir eu hailgylchu yw cardiau sydd â gliter arnynt, papur lapio, plastig du, selloffên, deunydd swigod, a pholystyren. Gellir mynd â choed Nadolig i ganolfan ailgylchu gymunedol leol.

<u>Aelod Cabinet Cymunedau</u>
Rhoddodd yr Aelod Cabinet - Cymunedol ddiweddariad i'r Cyngor ar ynglŷn â rhaglen trosglwyddo asedau cymunedol, sef mai Rest Bay Sportys, sy'n cynrychioli Clwb Pêl-droed Porthcawl, a Phorthcawl United yw'r sefydliadau diweddaraf i fanteisio ar y fenter. Maent am reoli caeau chwarae a phafiliwn Rest Bay eu hunain ar brydles adnewyddadwy o bum mlynedd, ac maent wedi derbyn ychydig dros £45,000 tuag at y gost o ailddatblygu'r pafiliwn. Gyda £10,000 pellach wedi'i ddarparu ar gyfer offer i gynnal a chadw'r caeau, mae'r clybiau'n bwriadu trawsnewid y pafiliwn hen ffasiwn drwy ymestyn ac adnewyddu lefel y llawr cyntaf, a balconi uwchlaw'r cae chwarae.

Dywedodd fod y Cyngor yn parhau i gefnogi nifer fawr o glybiau chwaraeon wrth iddynt ymgymryd â'r broses hunanreoli, a'u bod yn bwriadu recriwtio syrfëwr trosglwyddo asedau cymunedol i gryfhau'r broses. Ym mis Hydref 2020, derbyniwyd datganiadau o ddiddordeb ar gyfer rheoli 53 o gyfleusterau chwaraeon awyr agored a phafiliynau parciau, ac erbyn mis Tachwedd, roedd deg clwb bowlio arall wedi cytuno ar denantiaethau tymor byr. Cyhoeddodd y bydd nifer o drosglwyddiadau eraill i glybiau chwaraeon a chynghorau tref a chymuned yn cael eu cwblhau yn ystod y misoedd nesaf, a byddai'n dod â newyddion pellach ar hyn yn fuan.

<u>Aelod Cabinet Gwasanaeth Cymdeithasol a Chymorth Cynnar</u>
Cyfeiriodd yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar at gyhoeddiad cynharach gan yr Arweinydd lle amlinellodd y sefyllfa ddifrifol sydd o'n blaenau o ganlyniad i'r cynnydd mewn achosion coronafeirws, a sut mae cyfarwyddiaethau'n cymryd camau i sicrhau y gellir ei reoli'n effeithiol. O safbwynt y gwasanaethau cymdeithasol, mae nifer o risgiau uwch o ganlyniad i gynnydd yn absenoldebau staff, naill ai oherwydd Covid-19 neu oherwydd yr angen i hunanynysu. Mae capasiti ymhlith darparwyr gofal cartref mewnol ac annibynnol yn dynn ar hyn o bryd, felly gall unrhyw leihad pellach yn y gweithlu hwnnw olygu na allant fodloni holl ofynion y cynllun gofal a chymorth. Er bod rhagor o gapasiti mewn cartrefi preswyl a nyrsio ac ar draws y gwasanaeth gofal preswyl i blant, mae'r sefyllfa'n dal i fod yr un mor fregus. Er mwyn darparu ar gyfer hyn, mae nifer o gamau gweithredu allweddol yn cael eu cymryd yn unol â chynlluniau parhad busnes.

Yn gyntaf, mae'r gwasanaethau hanfodol yn cael eu hadolygu, eu blaenoriaethu, a'u cydgysylltu'n rheolaidd ar lefel cyfarwyddwr yn ogystal â lefel penaethiaid gwasanaeth. Mae'r meysydd gwasanaeth sy'n cael blaenoriaeth o fewn gofal cymdeithasol i oedolion a phlant yn cynnwys: diogelu, gofalu am y rhai mwyaf agored i niwed, asesiadau iechyd meddwl, rheoli achosion ar gyfer plant sy'n agored i niwed, gofal preswyl a gwasanaethau sy'n cefnogi maethu. Bydd y ddarpariaeth o ofal seibiant a gwasanaethau dydd yn cael ei hadolygu'n gyson hyd nes y bydd y sefyllfa'n gwella, a chysylltir ag unigolion a theuluoedd yr effeithir arnynt i roi cymorth ac i egluro unrhyw newidiadau angenrheidiol. Roedd gwaith yn cael ei wneud ar ddechrau'r pandemig i benderfynu a oedd gan staff brofiad blaenorol o weithio mewn gwasanaethau megis gofal uniongyrchol er enghraifft. O ganlyniad i'r blaengynllunio hwn, mae staff bellach yn cael eu hadleoli i gefnogi rheolwyr gweithredol. Mae pecyn hyfforddi sylfaenol wrthi'n cael sefydlu fel rhan o hyn er mwyn sicrhau y gall staff sydd wedi'u hadleoli helpu i ddarparu gwasanaethau rheng flaen yn effeithlon, a chant eu paru â staff rheolaidd hefyd er mwyn sicrhau eu bod mor effeithiol â phosibl.

Yn ogystal, mae gweithio'n mynd rhagddo gyda'r tîm Cyllid i sefydlu proses llwybr carlam ar gyfer taliadau uniongyrchol a all hwyluso gofal a chymorth ymhellach. Dywedodd y Cabinet fod y sefyllfa'n heriol ac yn newidiol, ond mae gan y Cyngor gyfarwyddwr ac uwch dîm rheoli hynod brofiadol ar waith i ymdopi â hyn, ac roedd hi'n hyderus bod yr awdurdod mewn dwylo diogel. Pwysleisiodd yr Aelod Cabinet mai sefyllfa dros dro yw hwn, ond fod ei hyd yn dibynnu os yw'r gyfradd heintio ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn parhau i godi neu'n gostwng. Cefnogodd yr Aelod Cabinet yr alwad gan yr Arweinydd i bobl gydymffurfio â'r holl ganllawiau, ac i helpu i atal lledaeniad coronafeirws.

<u>Aelod Cabinet Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol</u>
Rhoddodd yr Aelod Cabinet Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol hysbysiad i'r Aelodau am waith gorfodi pwysig sy'n parhau i ddigwydd ar draws y fwrdeistref sirol yn ystod y pandemig. Dywedodd y gallai Aelodau fod wedi gweld safleoedd lleol yn cael rhywfaint o sylw yn y cyfryngau wedi iddynt dderbyn hysbysiadau gwella yn sgil arolygiadau'r tîm Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir Dywedodd fod y tîm yn cyflawni gwaith hanfodol i

sicrhau bod busnesau'n dilyn rheolau a rheoliadau drwy gydol y pandemig ac yn gwneud popeth o fewn eu gallu i gadw cwsmeriaid a staff yn ddiogel. Yn gyffredinol, mae gorfodaeth yn digwydd ar ffurf hysbysiad gwella safle, sy'n rhoi manylion y mesurau sydd eu hangen i fodloni'r rheoliadau, i'w gosod o fewn terfyn amser penodol, 48 awr fel arfer. Os bydd y busnes yn methu â chydymffurfio, gall swyddogion gorfodi gyhoeddi hysbysiad cau safle, a all aros yn ei le am hyd at bedwar diwrnod ar ddeg.
Mewn rhai amgylchiadau, gall swyddogion gorfodi gau'r safle ar unwaith heb gyflwyno hysbysiad gwella, ond dim ond pan dorrwyd rheoliadau'n ddifrifol y byddai hyn. Nid yw hyn wedi bod yn angenrheidiol hyd yn hyn.

Dywedodd yr Aelod Cabinet Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol wrth y Cyngor fod un safle, clwb nos, wedi cael hysbysiad cau ar ôl methu â chydymffurfio â'r gwelliannau gofynnol, ond bod y rhan fwyaf o safleoedd sydd wedi derbyn hysbysiadau gwella wedi cydymffurfio'n llwyr ac wedi gallu parhau i fasnachu. O'r busnesau hyn, roedd unarddeg yn dafarndai a bariau trwyddedig. Roedd un gampfa, un archfarchnad, a phedair siop bwyd tecawê. Mae swyddogion gorfodi yn parhau i ymweld â safleoedd i sicrhau eu bod yn cyflawni eu cyfrifoldebau yn ystod y pandemig. Anogodd yr Aelodau i gyfarwyddo unrhyw etholwyr neu fusnesau yn eu ward sydd am wybod mwy am hyn at wefan y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir.

<u>Aelod Cabinet Addysg ac Adfywio</u>
Rhoddodd yr Aelod Cabinet Addysg ac Adfywio'r wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd mewn ysgolion lleol yn y cyfnod cyn y Nadolig. Dywedodd fod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno mesurau cenedlaethol ar gyfer pob ysgol a choleg ledled Cymru. Ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, mae pob ysgol uwchradd, gan gynnwys dosbarthiadau chweched, wedi symud i ddysgu ar-lein yn unig ac ar ôl heddiw, bydd pob ysgol fabanod, iau, cynradd ac arbennig, gan gynnwys The Bridge, hefyd yn symud i ddysgu ar-lein, a fydd ar waith am weddill yr wythnos. Mae nifer o ysgolion wedi gorfod cyflwyno'r cynlluniau hyn yn gynharach na'r disgwyl, oherwydd y nifer uchel o staff ac athrawon sydd naill ai wedi contractio coronafeirws neu sy'n hunanynysu o ganlyniad i ddod i gysylltiad â rhywun sydd wedi profi'n bositif.

Diolchodd a llongyfarchodd staff ac athrawon yr ysgol am eu gwaith caled a'u hymroddiad parhaus, ac am sicrhau y gall disgyblion barhau i dderbyn gwersi yn yr amgylchiadau anoddaf.

Dywedodd wrth y Cyngor y bydd plant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn derbyn parseli bwyd ar gyfer gwyliau'r Nadolig. Mae pob parsel yn cwmpasu cyfnod o bythefnos a chant eu danfon i gyfeiriadau cartref pob disgybl cymwys. Bydd y rhai sydd o oedran ysgol uwchradd hefyd yn derbyn parsel bwyd ychwanegol o ystyried y trefniadau dysgu ar-lein.

<u>Prif Weithredwr</u>
Atgoffodd y Prif Weithredwr yr Aelodau fod ymgynghoriad cyhoeddus wedi dechrau ar Uwch Gynllun Canol Tref Pen-y-bont ar Ogwr, a gofynnodd i'r Aelodau annog trigolion i gymryd rhan ynddo. Dywedodd fod yr Uwch Gynllun yn strategaeth ddeng mlynedd uchelgeisiol iawn gyda nifer o nodau pellgyrhaeddol.
Mae'n cynnwys ystod eang o gynigion megis creu sgwâr tref newydd, symud Coleg Pen-y-bont ar Ogwr i ganol y dref, trawsnewid adeiladau adfeiliedig a gwag yn siopau a thai newydd, a llawer mwy. Mae'r Cyngor wedi cydweithio ag ymgynghorwyr arbenigol i gynhyrchu'r uwch gynllun, a'r nod yw cynyddu nifer y bobl sy'n siopa, yn gweithio, yn byw, yn ymweld, a'n mwynhau canol y dref drwy ddefnyddio dull 'parthau' i gynyddi'r cyfleoedd manwerthu, i greu gofod masnachol a swyddfeydd newydd, i gyflwyno gwaith newydd ar yr amgylchfyd cyhoeddus, ac i ddarparu gwell cyfleusterau trafnidiaeth.

Mae safbwyntiau ac adborth eisoes wedi'i dderbyn gan berchnogion busnes a rhanddeiliaid ehangach; roedd barn trigolion ar yr uwchgynllun bellach yn cael ei geisio. Dywedodd y bydd yr ymgynghoriad yn 'fyw' tan 1 Mawrth 2021, a gall y cyhoedd gymryd rhan mewn sawl ffordd wahanol, ceir manylion y dulliau hyn ar dudalen ymgynghori gwefan y Cyngor.

483. DERBYN CYHOEDDIADAU GAN YR ARWEINYDD

Roedd yr Arweinydd yn falch o hysbysu'r Aelodau bod y Cynghorydd John Spanswick wedi'i ryddhau o Ysbyty Tywysoges Cymru a'i fod adref bellach yn gwella. Yn dilyn prawf cadarnhaol am coronafeirws, bu'r Cynghorydd Spanswick yn wael iawn, a chafodd ei dderbyn i uned ofal dwys ar ôl datblygu niwmonia. Darllenodd yr Arweinydd ddatganiad yr oedd y Cynghorydd Spanswick wedi'i bostio ar y cyfryngau cymdeithasol.

"Ychydig dros bythefnos yn ôl, profais yn bositif am Covid, ac am yr wythnos ganlynol bues i'n swatio a chysgu. Wythnos yn ddiweddarach, a minnau'n methu anadlu'n iawn, cefais fy nanfon i Ysbyty Tywysoges Cymru, gan adael i staff anhygoel y GIG gymryd yr awenau a rhoi'r driniaeth orau a fynnwn erioed.

Wedi sawl moment frawychus, a minnau'n meddwl efallai na fyddwn yn dychwelyd adref, yr wyf wedi bod yn un o'r rhai lwcus iawn. Diben y neges hon yw rhoi sylw haeddiannol i'r holl staff sy'n gweithio yn yr ysbyty, sy'n dod i'r gwaith bob dydd i frwydro'r firws ofnadwy hwn, ac i'r holl gleifion sydd angen eu cymorth yn ddybryd. Mae'r rhan fwyaf o'r staff wedi cael Covid eu hunain, ond maen nhw'n parhau i ddod i'r gwaith, a hynny er mwyn gwneud gwahaniaeth mewn amgylchiadau sydd bellach yn anodd iawn. Ni fyddaf byth yn gallu diolch digon i holl staff y GIG am y gofal a'r driniaeth y maent wedi'u rhoi imi, ond hwy yw gwir arwyr ein gwlad. Nawr, mae angen i ni i gyd chwarae ein rhan i helpu i atal Covid rhag lledaenu'n gyflymach."

Gofynnodd yr Arweinydd i'r Aelodau ymuno ag ef i ddymuno'n dda i'r Cynghorydd Spanswick wrth iddo barhau i wella gartref.

Dywedodd yr Arweinydd wrth y Cyngor fod y sefyllfa'n mynd yn enbyd yn gyflym. Ychydig oriau'n ôl, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fod Cymru'n symud i lefel rhybudd pedwar, ac y bydd cyfres o newidiadau cenedlaethol newydd yn cael eu gweithredu. Bydd yr holl fanwerthwyr nad ydynt yn hanfodol, gan gynnwys gwasanaethau lle ceir cyswllt agos a phob canolfan hamdden a ffitrwydd, yn cau ar Noswyl Nadolig, a bydd pob safle lletygarwch yn cau o 6pm ar Ddydd Nadolig. Ar 28 Rhagfyr, bydd cyfyngiadau llymach ar gymysgu cartrefi, a bydd cyfyngiadau aros gartref, llety gwyliau, a theithio hefyd yn dod i rym.

Dywedodd wrth y Cyngor y bydd £340m ar gael i gefnogi busnesau yr effeithir arnynt gan gyfyngiadau yn y Flwyddyn Newydd, ac addawyd cymorth pellach i fusnesau y mae'r cyfyngiadau newydd yn effeithio arnynt. Mae rhai gwasanaethau pwysig gan y cyngor bellach mewn perygl oherwydd bod achosion lleol o coronafeirws yn parhau i godi. Mewn llai na phythefnos, mae Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi symud o fod yn un o'r awdurdodau lleol sydd wedi gwella fwyaf yng Nghymru i fod y drydedd ardal uchaf ar gyfer achosion cadarnhaol o Covid-19.

Ar hyn o bryd mae Cyfarwyddiaethau wrthi'n nodi gwasanaethau sy'n gwbl hanfodol ar gyfer atal bygythiadau, naill ai ar sail niwed difrifol i les pobl, neu ar sail difrod difrifol i'r amgylchedd. Diffiniadau o argyfwng yw'r rhain fel y'u diffinnir gan y Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl, a dyma'r tro cyntaf i'r Cyngor hwn roi ystyriaeth o ddifrif i gamau mor radical. Mae hyn yn arwydd amlwg o lefel yr argyfwng y mae'r Cyngor wrthi'n delio ag ef. Cyn bo hir, bydd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar yn gwneud cyhoeddiad o safbwynt y gwasanaethau cymdeithasol.

Cyhoeddodd yr Arweinydd fod y nifer uchel o staff ysgolion sy'n hunanynysu neu'n sâl gyda coronafeirws eisoes wedi gorfodi un ysgol gyfun, un ysgol arbennig, a chwe ysgol gynradd i gau'n gynt na'r disgwyl. Mae staff y Cyngor eisoes yn gweithio'n ddi-baid i ddarparu gwasanaethau hanfodol mewn amgylchiadau anodd, ond bydd unrhyw leihad pellach yn y gweithlu yn cael effaith fawr ar allu'r Cyngor i wneud hynny. Dywedodd fod y Cyngor bellach mewn sefyllfa lle mae'n cael ei orfodi i ddechrau ystyried pa wasanaethau fydd angen eu cwtogi a'u lleihau.

Dywedodd yr Arweinydd wrth y Cyngor fod cydweithwyr yn y maes iechyd yn profi pryderon tebyg, ac mae'r Prif Weinidog wedi cadarnhau y gallai fod angen cyfyngiadau symud cenedlaethol pellach ar ôl y Nadolig. Dywedodd mai cyfrifoldeb trigolion y fwrdeistref sirol oedd penderfynu beth sy'n digwydd nesaf, os bydd angen i fesurau mor eithafol ddigwydd yn lleol ai peidio. Gobeithiai y bydd yr Aelodau'n cefnogi'r frwydr yn erbyn lledaeniad y coronafeirws drwy ddweud wrth etholwyr fod yn rhaid iddynt ei gymryd o ddifrif. Dywedodd fod angen i bawb feddwl am ganlyniadau posibl eu gweithredoedd, a dilyn y rheolau ar wisgo mwgwd, ymbellhau'n gymdeithasol, golchi dwylo, a dilyn y canllawiau ac mae angen cymryd camau brys yn awr i amddiffyn ffrindiau, teulu a chymdogion.

484. CYFLWYNIAD GAN FWRDD IECHYD PRIFYSGOL CWM TAF MORGANNWG A'R RHAGLEN CYFLWYNIADAU I'R CYNGOR

Cyflwynodd y Prif Weithredwr gyflwyniad i'r Cyngor gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a dywedodd wrth yr Aelodau y bydd trafodaethau'n cael eu cynnal gydag Arweinwyr Grwpiau ar raglen o gyflwyniadau yn y dyfodol gan bartneriaid y Cyngor yn 2021, i gynnwys partneriaid fel Awen a Halo o bosibl. Cyflwynwyd aelodau'r Cyngor i'r Athro Marcus Longley, Cadeirydd, Paul Mears, Prif Weithredwr, ac Alan Lawrie, Prif Swyddog Gweithredu, o Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.

Mynegodd Cadeirydd Cwm Taf ei ddiolch i'r Cyngor am ei waith mewn partneriaeth â'r Bwrdd Iechyd yn ystod y pandemig. Rhoddodd wybod i'r Cyngor am benawdau allweddol y 12 mis diwethaf, gan gynnwys cyhoeddi'r Cydadolygiad ar Lywodraethu Ansawdd; yr ymateb i Ymyrraeth wedi'i Thargedu (Ansawdd a Llywodraethu) a'r Mesurau Arbennig (Gwasanaethau Mamolaeth); y defnydd o fodel gweithredu newydd; yr ymateb i Covid-19; penodi Prif Weithredwr newydd; lansio gwerthoedd ac ymddygiadau CTM a ffocws ar ymgysylltu â rhanddeiliaid.

Hysbysodd Prif Weithredwr Cwm Taf y Cyngor o'r penawdau allweddol dros y 12 mis nesaf, sef Strategaeth Iechyd a Gofal Integredig hirdymor glir ar gyfer y sefydliad; dysgu o'r model gweithredu newydd; parhau i reoli pandemig Covid-19; adfer llawdriniaeth ddewisol; ffocws ar iechyd y boblogaeth; gweithio i archwilio cyfleoedd pellach ar gyfer integreiddio a gweithio mewn partneriaeth ac i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd o'r agenda digidol. Rhoddodd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am yr union gyfraddau heintio ar hyn o bryd, a dywedodd wrth y Cyngor fod y prosiect Profi Olrhain Diogelu yn enghraifft o weithio partneriaeth ar ei orau. Mae profion poblogaeth gyfan ar y gweill ym Merthyr Tudful a Chwm Cynon Uchaf, a'r rhaglen frechu ar gychwyn, ac wedi dechrau ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Dywedodd fod y System Iechyd a Gofal dan straen sylweddol, gyda mwy o gleifion COVID-19 mewn ysbytai nag erioed o'r blaen, a bod Ysbyty'r Seren ar agor a 53 o welyau'n cael eu defnyddio. Mae'r rheolaeth o oedi wrth drosglwyddo gofal yn cael ei wneud yn rhagweithiol mewn cydweithrediad â'r Cyngor.

Amlinellodd Prif Weithredwr Cwm Taf eu huchelgais ynghyd â'u cenhadaeth, eu gweledigaeth, a'u hamcanion strategol. Soniodd am y broses ar gyfer integreiddio ardal Pen-y-bont ar Ogwr i Gwm Taf, ac mai egwyddor sylfaenol wrth newid y ffiniau yw'r cyfle i fanteisio i'r eithaf ar synergeddau ar draws y Bwrdd Iechyd sydd newydd ei ehangu yn

hytrach na newid yn y gwasanaethau a ddarperir i gleifion,. Cafwyd cyfle i ddysgu o astudio enghraifft flaenllaw o integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol ym Mhen-y-bont ar Ogwr, lle mae model gweithredu newydd wedi creu Ardal Integredig ym Mhen-y-bont ar Ogwr, sy'n hwyluso cydweithio agos â chydweithwyr yn y Cyngor a'r sector gwirfoddol. Amlinellodd enghreifftiau o gydweithio a chynlluniau integredig y gaeaf, y datblygiadau ym maes gofal sylfaenol, a'r gwelliannau a oedd wedi digwydd i Ysbyty Maesteg. Rhoddodd wybod i'r Cyngor am y cynnydd sylweddol a wnaed yn y gwasanaethau mamolaeth. Wrth symud ymlaen, hysbysodd y Prif Weithredwr gynlluniau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer parhau i reoli pandemig COVID-19; cwblhad y gwaith rhagorol sy'n gysylltiedig ag integreiddio Pen-y-bont ar Ogwr; y gwaith gyda'r Cyngor ar ddatblygiadau pellach o ran integreiddio Iechyd a Gofal Cymdeithasol; y ffocws ardal ar iechyd y boblogaeth ac ymgysylltu ehangach â'r gymuned; a’r gwaith parhaus i ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol a'u cynnwys yn natblygiadau gwasanaeth ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Talodd aelodau'r Cyngor deyrnged i holl staff y GIG sydd wedi gweithio'n ddiflino yn ystod y pandemig. Cyfeiriodd aelod o'r Cyngor at 2 fwrdd iechyd yng Nghymru a gyhoeddodd ddoe am driniaeth hanfodol mewn ysbytai, a holodd pam nad oedd defnydd gwell a cynharach wedi'i wneud o ysbytai maes. Gofynnodd aelod o'r Cyngor hefyd a allai'r bwrdd iechyd rannu gwybodaeth gyda'r Aelodau am fannau lle ceir cyfraddau covid uchel. Dywedodd Prif Weithredwr Cwm Taf wrth y Cyngor fod yr ysbyty maes wedi'i agor ym mis Hydref lle mae cleifion sy'n gwella yn cael eu derbyn, a hynny gan yr ystyriwyd ei bod yn well cael cyfleuster ar wahân ar gyfer pobl sy'n gwella o covid gan y gwyddid fod y bobl sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty â covid. Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai'n cael sgwrs gyda'r Prif Weithredwr a'r Arweinydd ynghylch y ffordd orau o rannu gwybodaeth am fannau sydd â chyfraddau uchel i Aelodau.

Cyfeiriodd aelod o'r Cyngor at y diffyg dosbarthiadau cynenedigol ar hyn o bryd a allai effeithio ar wasanaethau blynyddoedd cynnar, a bod mamau'n colli cyfle i ennill sgiliau allweddol. Cyfeiriodd aelod o'r Cyngor hefyd at y cyfraddau cychwynnol o fwydo ar y fron yn y DU sydd wedi gostwng yn ddramatig, gan gael effaith ar fabanod yn ddiweddarach, a gofynnwyd beth ellir ei wneud i annog mamau i barhau i fwydo ar y fron. Soniodd Prif Weithredwr Cwm Taf wrth y Cyngor am yr amser heriol ar gyfer gwasanaethau mamolaeth yn ystod y pandemig, a bod yn rhaid adolygu gwasanaethau'n gyson i'w darparu'n ddiogel a'i bod wedi bod yn anodd i staff sy'n gweithio mewn timau ymweld. Dywedodd fod y bwrdd iechyd yn annog bwydo ar y fron ac y bydd gwaith pellach yn cael ei wneud i wella cyfraddau bwydo ar y fron.

Gofynnodd aelod o'r Cyngor pa gamau sy'n cael eu cymryd ledled Cymru i sicrhau bod clinigwyr yn derbyn yr hyfforddiant diweddaraf yn ystod y pandemig. Dywedodd Prif Weithredwr Cwm Taf wrth y Cyngor fod nifer o wasanaethau wedi gorfod peidio yn ystod y pandemig, ond tynnodd sylw at bwysigrwydd caniatáu i staff meddygol iau barhau i arsylwi ar lawdriniaethau sy'n cael eu cyflawni. Dywedodd fod nifer o lawfeddygon wedi parhau i gyflawni llawdriniaethau. Dywedodd wrth y Cyngor fod y Cyfarwyddwr Meddygol yn adolygu prosesau'n gyson i sicrhau bod meddygon iau yn arsylwi ar lawdriniaethau a bod llawfeddygon yn parhau i gyflawni llawdriniaethau.

Holodd aelod o'r Cyngor am effaith trosglwyddo gwasanaethau patholeg o Ben-y-bont ar Ogwr i Abertawe, gan arwain at golli arbenigedd, a holodd a oedd cynigion ar gyfer y gwasanaeth hwnnw wedi'u datblygu. Dywedodd y Prif Swyddog Gweithredu wrth y Cyngor nad oedd y bwrdd iechyd wedi gwneud cymaint o gynnydd ag y byddai wedi ei ddymuno oherwydd y pandemig, ond roedd datblygu'r gwasanaethau patholeg yng Nghwm Taf yn parhau i fod yn flaenoriaeth yn sgil trosglwyddo'r gwasanaeth blaenorol i Abertawe.

Holodd aelod o'r Cyngor a oes cynigion i ddatblygu rheoli poen yn y gymuned. Soniodd Prif Weithredwr Cwm Taf am natur wanychol rheoli poen ac roeddent yn edrych ar sut y gellid symud mwy o wasanaethau i'r gymuned, a phan fo diffyg trafnidiaeth gyhoeddus byddai'n ystyried darparu cyfleusterau trafnidiaeth.

Cyfeiriodd aelod o'r Cyngor at y swm sylweddol o ddatblygiadau preswyl sy'n digwydd yn ardal porth y cymoedd, a holodd am y cynnydd o ran datblygu cyfleusterau gofal sylfaenol yn y lleoliad. Dywedodd y Prif Swyddog Gweithredu wrth y Cyngor fod Cwm Taf yn ymwybodol iawn o faint o dai sy’n cael eu hadeiladu yn y lleoliad hwnnw, ac ar draws coridor yr M4, a bod sgyrsiau wedi'u cynnal ar ddatblygu cyfleuster gofal sylfaenol newydd yng Nghorneli. Dywedodd fod angen datblygu cyfleusterau gofal sylfaenol yn ardal porth y cymoedd.

Cyfeiriodd aelod o'r Cyngor at y cysylltiad rhwng tai ac iechyd, a gofynnodd beth allai’r bwrdd iechyd ei wneud i ryddhau tir dros ben ar gyfer datblygu tai cymdeithasol gan fod cysylltiad cryf rhwng iechyd da a darparu tai da. Dywedodd Prif Weithredwr Cwm Taf wrth y Cyngor y byddai'n edrych ar ryddhau tir dros ben wrth iddo ddatblygu ei fodel gweithredu, ac y byddai'n ceisio gweithio gyda swyddogion ar ddatblygu atebion arloesol. Dywedodd y Prif Swyddog Gweithredu fod trafodaethau wedi'u cynnal gyda chymdeithasau tai ar gyfleoedd o dan nawdd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

Holodd aelod o'r Cyngor am y camau sy'n cael eu cymryd gan Gwm Taf i drin pobl oedrannus sydd wedi cael diagnosis o ddementia. Dywedodd Prif Weithredwr Cwm Taf fod dementia wedi dod yn salwch sylweddol ac y gallai llawer sy'n gwella o covid fod â dementia. Dywedodd wrth y Cyngor fod y bwrdd iechyd yn gweithio'n agos gyda Gofal Cymdeithasol i Oedolion i gefnogi'r rhai â dementia. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles wrth y Cyngor fod gwasanaethau dementia yn cael eu datblygu mewn ffordd integredig a bod datblygiad cadarnhaol wedi bod gyda Nyrsys Seiciatrig Cymunedol yn gweithio mewn clystyrau.

Roedd aelod o'r Cyngor yn falch o nodi integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol, a holodd am y broses ar gyfer talu taliadau uniongyrchol i deuluoedd milwrol sy'n trosglwyddo o un ardal i'r llall. Cadarnhaodd y Prif Swyddog Gweithredu fod ganddo brosesau ar waith o ran cynnal gofal parhaus trwy drosglwyddo cyllid rhwng byrddau iechyd ar gyfer personél milwrol a chyn-filwyr y lluoedd arfog. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles wrth y Cyngor fod y Cyngor, pan fo teuluoedd milwrol yn symud rhwng awdurdodau yng Nghymru, yn gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol ar daliadau uniongyrchol.

PENDERFYNIAD: Fod y Cyngor wedi:

(1) nodi'r cyflwyniad gan Brif Weithredwr a Chadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.
(2) nodi y bydd rhaglen o gyflwyniadau yn cael ei chyflwyno gan bartneriaid y Cyngor yn ystod 2021.

485. ADOLYGIAD O GYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL - NEWIDIADAU I AELODAETH PWYLLGORAU

Adroddodd y Swyddog Monitro ar ganlyniad adolygiad o gydbwysedd gwleidyddol yr Awdurdod o ganlyniad i newidiadau o fewn aelodaeth grwpiau gwleidyddol; ceisiodd gymeradwyaeth i'r cydbwysedd gwleidyddol diwygiedig; gofynnodd am enwebiad gan Grŵp y Gynghrair Annibynnol i eistedd ar Fforwm y Cynghorau Tref a Chymuned, i Grŵp Plaid Cymru i ildio sedd ar y Fforwm, ac i'r Cyngor nodi na fydd y Cynghorydd T Thomas yn eistedd ar y Pwyllgor Penodiadau mwyach gan iddo ymgymryd â rôl fel

Arweinydd Grŵp Plaid Cymru, a bydd y sedd yn awr yn cael ei chymryd gan y Cynghorydd RM James, Arweinydd Grŵp Plaid Cymru.

Adroddodd y Swyddog Monitro ei bod yn ofynnol i'r Cyngor, drwy ddeddfwriaeth a darpariaethau Rhan 4 o Reolau Gweithdrefn (Rheolau Gweithdrefn y Cyngor) y Cyfansoddiad, i ymgymryd â threfniadau a fydd yn parhau i hwyluso a chyflawni prosesau gwneud penderfyniadau'r Awdurdod. Yn ei Gyfarfod Blynyddol ar 30 Medi 2020, cymeradwyodd y Cyngor y cydbwysedd gwleidyddol a gwnaeth benodiadau i Bwyllgorau a fyddai'n adlewyrchu ffurf wleidyddol yr Awdurdod.

Amlinellodd y Swyddog Monitro y newidiadau diweddar i aelodaeth grwpiau gwleidyddol, mewn perthynas ag aelodaeth Grŵp Plaid Cymru a Grŵp y Gynghrair Annibynnol. Mae'r Cynghorydd T Thomas wedi gadael Grŵp Plaid Cymru ac wedi ymuno â Grŵp y Gynghrair Annibynnol. Mae'r Cynghorydd R Stirman wedi gadael Grŵp Plaid Cymru a bydd yn eistedd fel aelod Annibynnol. Y Cynghorydd RM James bellach yw Arweinydd Grŵp Plaid Cymru. Ni fydd y Cynghorydd J Williams bellach yn aelod Annibynnol annibynnol, gan ei fod wedi ymuno â Grŵp y Gynghrair Annibynnol. Mae'r Cynghorydd S Aspey wedi gadael y Grŵp Cynghrair Annibynnol a bydd yn aelod Annibynnol annibynnol.

PENDERFYNIAD: Fod y Cyngor wedi:

(1) nodi'r newid i gyfansoddiad gwleidyddol y Cyngor;

(2) cymeradwyo'r dyraniad o seddi i grwpiau gwleidyddol yn unol â'r rheolau cydbwysedd gwleidyddol fel y'u nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad, a chymeradwyo'r newidiadau i aelodaeth Pwyllgorau fel yr amlinellir ym mharagraff 4.3 o'r adroddiad.

(3) penodi'r Cynghorydd AJ Williams o Grŵp y Gynghrair Annibynnol i eistedd ar Fforwm y Cyngor Tref a Chymuned.

(4) nodi na fydd y Cynghorydd T Thomas yn eistedd ar y Pwyllgor Penodiadau mwyach gan fod hon yn rôl a gyflawnwyd yn ei rôl fel Arweinydd Grŵp Plaid Cymru ac y bydd bellach yn cael ei chyflawni gan y Cynghorydd RM James, Arweinydd Grŵp Plaid Cymru.

486. NODI ADRODDIAD GWYBODAETH

Adroddodd y Prif Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddiol a'r Swyddog Monitro ar yr Adroddiad Gwybodaeth a gyhoeddwyd ers cyfarfod diwethaf y Cyngor.

PENDERFYNIAD: Fod y cyngor yn cydnabod cyhoeddiad y ddogfen a restrir yn yr adroddiad.

487. HYSBYSIAD O GYNNIG GAN Y CYNGHORYDD T GIFFARD

1. Mae'r Cyngor hwn yn credu:
1.1. Fod coetiroedd a mannau gwyrdd agored yn chwarae rhan hanfodol yn ein lles corfforol, meddyliol ac emosiynol, yn ogystal â bod yn rhan annatod o fioamrywiaeth Pen-y-bont ar Ogwr

1.2. Bod pandemig Covid-19, a natur y cyfyngiadau symud lleol a chenedlaethol, wedi cynyddu'r angen am fannau hamdden awyr agored a hygyrch, a bod y rhain yn hanfodol ar gyfer adeiladu cymunedau cydlynol ac iach sy'n sicrhau lles cenedlaethau'r dyfodol

1.3. Bod gan lywodraeth leol ddyletswydd a chyfrifoldeb moesol i gyfyngu ar ddifrod ecolegol ac effeithiau negyddol ar fioamrywiaeth leol

1.4. Bod unrhyw golled o fannau gwyrdd agored neu goetir ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn destun gofid mawr, a bydd yn cael effaith negyddol ar ecoleg a bioamrywiaeth Pen-y-bont ar Ogwr, ac ar les corfforol, meddyliol ac emosiynol ei thrigolion

1.5. Gallai Cyngor Bwrdeistrefi Sirol Pen-y-bont ar Ogwr fod ar flaen y gad yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig wrth fynd i'r afael â cholli bioamrywiaeth, wrth hyrwyddo effeithiau cadarnhaol mannau agored gwyrdd, ac wrth sicrhau bod pob datblygiad newydd yn cael ei gyflawni mewn ffordd sy'n gwella, yn hytrach na niweidio, hygyrchedd a bioamrywiaeth mannau gwyrdd agored a choetiroedd Pen-y-bont ar Ogwr

2. Mae'r Cyngor hwn yn cydnabod:

2.1. Fod adolygiad yn cael ei gynnal o'r Archwiliad o Fannau Chwarae Chwaraeon Awyr Agored a Phlant fel rhan o'r CDLl newydd sy'n dod i'r amlwg, gan sicrhau fod teipoleg categoreiddio mannau agored a amlinellir yn Nodyn Cyngor Technegol 16 Llywodraeth Cymru: Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored yn cael eu dilyn, gan roi sylw arbennig i wahanu mannau gwyrdd awyr agored/naturiol a mannau gwyrdd amwynder.

2.2. Bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn galw ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i:

2.2.1. "gwella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol" Pen-y-bont ar Ogwr

2.2.2. Cyfrannu at greu "cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach sy'n cefnogi gwydnwch cymdeithasol, economaidd ac ecolegol a'r gallu i addasu i newid"

2.2.3. Cyfrannu at greu "cymdeithas lle mae lles corfforol a meddyliol pobl cystal ag y gallai fod, a lle y deallir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol"

2.3. Mae Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Pen-y-bont ar Ogwr, bwrdd y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn aelod sylweddol ohono, yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyngor:

2.3.1. Sicrhau bod cymunedau'n rhoi mwy o werth ar eu hamgylchedd a bod mwy o bobl yn cymryd rhan mewn materion lleol ac yn cydnabod pwysigrwydd mannau gwyrdd mewn lles ac fel ffactor atal"

2.3.2. Hyrwyddo "pobl iach egnïol mewn cymunedau gwydn, gwirfoddoli, cadw pobl ifanc yn yr ardal leol, lleihau teithio i'r gwaith, mwy o ddefnydd ac ymwybyddiaeth o fannau gwyrdd"

2.3.3."cydweithio i sicrhau'r budd mwyaf posibl o asedau diwylliannol, adeiledig a naturiol"

2.3.4."sicrhau bod cymaint o bobl â phosibl yn gwybod am fanteision meddyliol a chorfforol treulio amser yn yr awyr agored"

2.3.5."diogelu a gwarchod cynefinoedd, hyrwyddo rheolaeth gynaliadwy ar fannau gwyrdd, atal colli asedau. Lliniaru yn erbyn newid yn yr hinsawdd, dirywiad bioamrywiaeth, a pherygl llifogydd"

2.3.6."darparu asedau diwylliannol a gwyrdd sy'n ddiogel a'n hygyrch i bobl hŷn, i ofalwyr, i bobl anabl, teuluoedd ifanc, a phlant"

2.3.7."annog rhyngweithio cymunedol drwy ddarparu asedau diwylliannol a gwyrdd diogel a hygyrch. Cymunedau sy'n teimlo cysylltiad â'u hamgylchedd ac sy'n ymgysylltu ag ef"

2.3.8."hyrwyddo chwaraeon a hamdden sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd naturiol"

2.3.9."Arafu dirywiad bioamrywiaeth"

2.4. Mae Siarter Creu Lleoedd Cymru, sydd wedi'i arwyddo gan Lywodraeth Cymru, yn galw ar gynghorau a sefydliadau i sicrhau bod yr egwyddorion canlynol yn cael eu bodloni wrth gynllunio, dylunio, neu reoli lleoedd newydd a'r rhai a oedd yn bodoli eisoes:

2.4.1."Mae'r gymuned leol yn cyfrannu at ddatblygiad cynigion. Ystyrir anghenion, dyheadau, iechyd, a lles pawb o'r cychwyn cyntaf. Caiff cynigion eu llunio i helpu i ddiwallu'r anghenion hyn yn ogystal ag i greu, i integreiddio, i ddiogelu, a/neu wella ymdeimlad o gymuned a hyrwyddo cydraddoldeb"

2.4.2."Mae lleoedd yn tyfu ac yn datblygu mewn ffordd sy'n defnyddio tir yn effeithlon, sy'n cefnogi ac yn gwella lleoedd presennol, a chan sicrhau cysylltedd da"

2.5. Bydd methu ag ymgorffori amcanion a nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a Chynllun Llesiant Pen-y-bont ar Ogwr yn arwain at golli mannau gwyrdd agored hanfodol a choetiroedd mewn cymunedau ledled Pen-y-bont ar Ogwr

3. Felly, mae'r cyngor hwn yn penderfynu:

3.1. Dod yn un o lofnodwyr Siarter Creu Lleoedd Cymru

3.2. Gweithio i ddiogelu mannau agored gwyrdd a choetiroedd mewn cymunedau newydd a rhai hŷn ledled Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

3.3. Os mai colli mannau gwyrdd yw'r unig ddewis ar gyfer unrhyw un o brosiectau adeiladu'r Cyngor, dylid cynnal refferendwm lleol o fewn y ward lle mae'r gwaith i'w wneud er mwyn mesur cefnogaeth y gymuned i brosiect o'r fath.

Cafodd yr Hysbysiad o Gynnig ei eilio gan y Cynghorydd A Pucella.

Cynigiwyd gwelliant i'r Hysbysiad o Gynnig gan y Cynghorydd R Stirman, ac fe'i heiliwyd gan y Cynghorydd T Thomas, sef y dylid ychwanegu'r geiriau "Bwrdeistref Sirol" ar ôl i'r gair "Pen-y-bont ar Ogwr" ym mharagraffau 1.1, 1.3 ac 1.5, ac i'r geiriau "a fyddai'n dod yn ystyriaeth gynllunio berthnasol pan wneir penderfyniadau" gael eu hychwanegu at ddiwedd paragraff 3.3.

Dywedodd y Swyddog Monitro wrth y Cyngor na fyddai'r cynnig ar gyfer refferendwm, sydd wedi'i gynnwys yn yr hysbysiad o gynnig a'r gwelliant, yn briodol pan fo proses i gynigion fod yn destun ymgynghoriad statudol â'r cyhoedd. Dywedodd y Swyddog Monitro hefyd na fyddai'r gwelliant yn gyfreithlon gan y byddai'n rhwymo dwylo'r Pwyllgor Rheoli Datblygu. Tynnodd y Cynghorydd Stirman y gwelliant yn ôl.

Mynegodd yr Aelod Gymunedau Cabinet ei bryder ynglŷn â'r Hysbysiad o Gynnig, gan fod popeth a gynhwysir ym mharagraffau 1.1 i 1.5 eisoes yn cael ei wneud gan y Cyngor ac wedi'i wreiddio yn y system gynllunio. Dywedodd fod paragraffau 2.3 a 2.3.1 hefyd yn cael eu hystyried gan y Cyngor fel rhan o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae paragraff 2.3.3 eisoes yn rhan o'r broses gynllunio, tra bod paragraff 2.4, sy'n cyfeirio at y Siarter Creu Lleoedd, eisoes yn cael ei weithredu ac yn destun ymgynghoriad. Dywedodd ei fod yn cytuno â byrdwn paragraffau 3.1 a 3.2, fodd bynnag mewn perthynas â pharagraff 3.3, dywedodd wrth yr Aelodau fod gan y Cyngor broses ymgynghori eisoes mewn bodolaeth, a'i fod yn rhyngweithio'n uniongyrchol â'r cyhoedd, a holodd pa rannau o'r Hysbysiad o Gynnig nad oedd y Cyngor yn cydymffurfio â hwy bellach, a chwestiynodd perthnasedd refferendwm gan na fyddai ganddo unrhyw statws nac unrhyw fudd amlwg.

Dywedodd y Swyddog Monitro y byddai refferendwm lleol yn ddangosol, ond na fyddai'n rhwymo'r Pwyllgor Rheoli Datblygu, ac ni fyddai mor bwysig â'r broses ymgynghori statudol. Aeth y Swyddog Monitro yn ei flaen i ddweud y gellir apelio unrhyw benderfyniad a wneir gan yr Arolygiaeth Gynllunio, a hynny oherwydd bod y Pwyllgor Rheoli Datblygu yn Bwyllgor statudol, .

Rhoddodd Rheolwr y Grŵp Cynllunio a Datblygu trosolwg o gynllunio mewn perthynas â'r Hysbysiad o Gynnig, a dywedodd wrth yr Aelodau y bydd y mannau agored y Cyngor sy'n rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) presennol yn cael eu diogelu yn y CDLl newydd, ac y byddent yn destun ymgynghoriad helaeth, a bod cyfnodau allweddol lle mae'n rhaid i'r Cyngor ymgysylltu â'r gymuned. Bydd ymgysylltiad â'r cyhoedd yn digwydd ar y CDLl cyn iddo gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru, a bydden nhw wedyn yn ei gyfeirio at Arolygydd er mwyn craffu arno. Bydd yr Arolygydd, ar ôl craffu ar y CDLl, yn ei gyfeirio at Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo cyn iddo gael ei fabwysiadu gan y Cyngor.

Dywedodd aelod o'r Cyngor wrth yr Aelodau ei fod yn credu y byddai cynnal refferendwm ar y safle preswyl arfaethedig yn Nhondu yn arwain ar nifer sylweddol o wrthwynebiadau.

Dywedodd aelod o'r Cyngor fod gan y Cyngor brosesau cadarn eisoes ar waith ac y byddai cynnal refferenda lleol yn gynsail beryglus ac yn rhwystro'r Pwyllgor Rheoli Datblygu.

Dywedodd yr Aelod Cabinet Cymunedau wrth yr Aelodau wrth yr Aelodau fod y Swyddog Monitro a Rheolwr y Grŵp Cynllunio a Datblygu wedi cynghori'r Cyngor mewn perthynas â'r Hysbysiad o Gynnig, ac na fyddai cynnal refferendwm yn dwyn unrhyw bwys mewn penderfyniadau cynllunio ac y byddai caniatáu'r Hysbysiad o Gynnig yn codi disgwyliadau'r cyhoedd. Dywedodd wrth y Cyngor ei fod yn cytuno â'r rhagair yn yr Hysbysiad o Gynnig a chredodd y byddai Hysbysiad o Gynnig i lofnodi amcanion a nodau'r Siarter Gwneud Lleoedd yn cael cefnogaeth y Cyngor.

Wrth grynhoi, dywedodd y Cynghorydd Giffard fod geiriad yr Hysbysiad o Gynnig wedi bod yn destun ymgynghoriad â'r Swyddog Monitro. Dywedodd y cydnabuwyd bod y Cyngor eisoes wedi ymrwymo i lawer o'r pwyntiau a amlygwyd yn rhagarweiniad yr Hysbysiad o Gynnig. Dywedodd hefyd fod llawer o drigolion yn teimlo nad yw eu lleisiau'n bwysig a bod yr Hysbysiad o Gynnig yn rhoi'r pŵer yn ôl yn nwylo pobl leol.

Yn dilyn pleidlais gan yr holl Aelodau a oedd yn bresennol, roedd yn:

<u>PENDERFYNIAD:</u> Bod yr Hysbysiad o Gynnig wedi'i wrthod.

488. EITEMAU BRYS

Nid oedd unrhyw eitemau brys.

489. GWAHARDD Y CYHOEDD

PENDERFYNIAD: O dan adran 100A (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad At Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, bod y cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod yn ystod ystyriaeth o'r eitem ganlynol o fusnes gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth wedi'i heithrio fel y'i diffinnir ym mharagraff 14 o ran 4 ac/neu baragraff 21 o ran 5 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.

Yn dilyn cymhwyso'r prawf budd y cyhoedd, penderfynwyd, yn unol â'r Ddeddf y cyfeirir ati uchod, i ystyried yr eitem ganlynol yn breifat, gyda'r cyhoedd wedi'u heithrio o'r cyfarfod, gan yr ystyriwyd bod budd y cyhoedd o gynnal yr esemptiad, yn yr holl amgylchiadau sy'n ymwneud â'r eitem, yn drech na budd y cyhoedd o ddatgelu'r wybodaeth.

490. MODERNEIDDIO YSGOLION - RHAGLEN GYFALAF BAND B - COSTAU TIR

Daeth y cyfarfod i ben am 17:56